**EITEM AR YR AGENDA: 16**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref 2011**

**LLUSERNAU PAPUR**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried y Rhybudd o Gynnig a gytunwyd yn ddiweddar yng Nghyngor Sir y Fflint ynglŷn â Llusernau Papur.

## Cefndir

2 Yn ei gyfarfod ar 28ain Medi 2011, bu Cyngor Sir y Fflint yn trafod Rhybudd o Gynnig ynglŷn â Llusernau Papur, fel a ganlyn:

"Oherwydd y perygl cynhenid i anifeiliaid, a chefn gwlad yn gyffredinol, a achosir gan ryddhau a lansio'r llusernau papur, mae'r Cyngor Sir hwn yn galw at Senedd San Steffan a/neu Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd y defnydd o daflegrau hedegog o'r fath".

## Gwybodaeth

3 Bu'r Cyngor Sir yn trafod y mater, a chodwyd pryderon ynglŷn ag effaith y llusernau petaent yn glanio ar dir fferm a pheryglu bywydau anifeiliaid. Roedd rhai enghreifftiau o'r difrod a achosir, sef:

- roedd unrhyw ddarnau metel yn glanio yng nghefn gwlad yn berygl i anifeiliaid petaent yn cael eu bwyta ganddynt yn uniongyrchol neu'n cael eu cynnwys yn ddiarwybod mewn bwyd gaeaf a oedd wedi cael ei dorri a'i gynaeafu o gaeau agored;

- roedd llusernau a oedd yn disgyn i'r ddaear tra'n dal i losgi yn berygl sylweddol o dân; ac
- mae'r llusern yn bendant yn ffynhonnell sbwriel.

4 Gofynnodd Aelodau'r Cyngor i'r rhybudd gael ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol cyfagos a fyddai hefyd yn dymuno rhoi eu cefnogaeth. Felly, mae Aelodau'r ATA yn cael eu hannog i rannu hyn o fewn eu hawdurdodau cyfansoddol.

5 Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Cyngor Sir:

"Oherwydd y perygl cynhenid i anifeiliaid, a chefn gwlad yn gyffredinol, a achosir gan ryddhau a lansio'r llusernau papur, mae'r Cyngor Sir hwn yn galw at Senedd San Steffan a/neu Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd y defnydd o daflegrau hedegog o'r fath."

**Argymhelliad**

6 Bod yr Awdurdod yn cytuno i gefnogi a galw ar Senedd San Steffan a/neu Lywodraeth Cymru "i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd y defnydd o daflegrau hedegog o'r fath".